

making**sense**@home

Croeso i'ch pecyn synhwyrdd a grewyd gan yr artist Donna Jones a'i ysbrydoli gan waith y gemydd Jane Adams a fu'n arddangos ei gwaith yng Nghanolfan Grefft Rhuthun yn ddiweddar.



Jane Adams mobile The Kapor Centre in Oakland, California



- Lluniwyd ein syniadau synhwyrdd i roi cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu trwy'r synhwyrdd, bod yn chwareus, creadigol a chael llawer o hwyl!
- Mae Donna Jones yn artist yn Rhuthun sy'n arbenigo mewn trin papur a brodwaith.
- Mae hi wedi creu pecyn symudyn synhwyrdd i chi ei roi at ei gilydd a'i osod yn eich ffenestr neu rywle y tu mewn lle y bydd yn cael awel i chi ei fwynhau!

Cynnwys

Mae'r pecyn yn cynnwys:

Cyfarwyddiadau syml

Ffan papur

4 deilen bapur wedi'u gwneud â llaw

3 bluen estrys

1 gloch fawr ynghyd â chlychau bach

Conffeti

Llinyn

Ffon

Pecyn gwneud un eich hun gyda phapur a sticeri... fel y medrwch chi wneud eich dail eich hunain i'w hychwanegu at y symudyn. Ac addurno'r ffan.



Gwnaed y dail â llaw gan Donna i wneud sŵn a symud yn ysgafn yn yr awel.

Cyn i chi roi eitemau'r pecyn at ei gilydd, archwiliwch eu teimlad a'u sain gyda'r unigolyn rydych chi'n gofalu amdano, gan ddefnyddio'r ffan i greu'r awel.

Mae'r plu estrys yn teimlo'n wych ar eich croen, a pheidiwch ag anghofio am y clychau!

Cyfarwyddiadau

Rhowch y llinyn trwy'r tyllau ym mhen y dail, plu a'r clychau. Addaswch yr hyd i weddu i'ch gwagle chi, a'u rhoi ar y ffon.

Cewch blygu'r dail at allan i gael effaith 3D.

Mae pecyn o ddefnyddiau hefyd i chi ychwanegu deilen ychwanegol wedi'i dylunio gennych chi, neu ddylunio eich siapiau ychwanegol eich hun i'w hychwanegu at y symudyn.

Cewch addurno'r ffan hefyd os ydych chi'n dymuno!

Bydd angen siswrn, ebideudwll a glud arnoch chi.

Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau eich symudyn cewch ei hongian yn rhywle lle byddwch chi a'r unigolyn rydych chi'n gofalu amdano yn medru ei weld a'i fwynhau!

Defnyddiwch y ffan i wneud iddo symud a gwneud sŵn neu aros iddo gael ei symud gan yr awel.

Cewch osod y dail a'r plu sut bynnag y dymunwch, ac mae croeso i chi eu datglymu a'u harchwilio gyda'ch gilydd ar adeg arall.

Dilynwch y ddolen i weld sut mae'r symudyn yn edrych wedi'i gwblhau ac i wyllo Donna'n plygu ochrau deilen i greu effaith 3D!

<https://vimeo.com/444805873>



